



30 Mai 2018

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AR
ADOLYGIAD HMICFRS: PEEL: Police Effectiveness 2017 (yn cynnwys
Arweinyddiaeth) (dyddiedig Mawrth 2018)**

Rwy'n croesawu canfyddiadau adroddiad 'PEEL: Police Effectiveness 2017' ar gyfer Heddlu De Cymru. Graddiwyd yr heddlu yn 'dda' ac mae'r adroddiad yn cydnabod bod Heddlu De Cymru wedi perfformio'n gyson dda mewn archwiliadau 'effeithiolrwydd'.

Mae'r adroddiad yn nodi bod gan yr heddlu 'ddealltwriaeth gynhwysfawr o bobl sy'n agored i niwed'. Mae pobl sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth wirioneddol i mi ac maent yn rhan sylweddol o'm Cynllun ar gyfer yr Heddlu a Gostwng Troseddau. Mae'r Prif Gwnstabl, Matt Jukes, yn datblygu'r ymrwymiad hwn i bobl sy'n agored i niwed yn gadarnhaol ac nid yw'n syndod i mi bod hyn yn arwain at ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r materion. Mae'n bleser gennyf ddarparu nifer o brosiectau ar y cyd yn Ne Cymru sydd â'r nod o ddelio â phobl sy'n agored i niwed, yn arbennig prosiectau'r Gronfa Trawsnewid sy'n ymwneud â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched a gwaith Cymru Gyfan ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sydd wedi'i ariannu ar y cyd ac sy'n cael ei gefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, rwy'n ei ystyried yn ddyletswydd ac yn fraint cael gweithio gyda'r nifer fawr o asiantaethau partner sydd gennym yn ardal De Cymru. Rwy'n falch bod yr adroddiad yn cydnabod y ffordd gadarnhaol y mae Heddlu De Cymru yn gweithio gydag asiantaethau partner i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Nid mater i'r heddlu yn unig ydyw, ac rydw i a'r Prif Gwnstabl yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio gyda phartneriaid er mwyn pwysleisio hyn.

Rwy'n falch bod ein gwaith gyda Chanolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) a Chynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARACs) yn cael canmoliaeth yn yr adroddiad. Roeddwn yn awyddus i sicrhau bod y systemau hyn yn cael eu cyflwyno'n helaeth ac yn effeithiol yng Nghynllun ar y Cyd Heddlu De Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched, a lansiwyd yn 2014. Ers hynny, rydym wedi datblygu'n gadarnhaol yn y maes hwn o ran pobl sy'n agored i niwed ac nid yw fy ymrwymiad i'r agenda wedi newid. Mae dull gweithredu cadarnhaol Heddlu De Cymru o fynd i'r afael ag achosion o gam-drin domestig hefyd wedi golygu bod cyfradd uwch o arestiadau ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru



cham-drin domestig na chyfradd Cymru a Lloegr ar gyfartaledd, ac rwy'n teimlo bod hyn yn rhywbeth y dylai'r Prif Gwnstabl fod yn falch ohono ac mae'r adroddiad hefyd yn nodi hynny.

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod Heddlu De Cymru yn dda wrth ymchwilio i droseddau sydd wedi effeithio ar ddiodefwyr sy'n agored i niwed, nad yw yn syndod i mi. Mae ein technoleg sy'n gwella o hyd, gan gynnwys ein Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus, yn helpu i nodi pobl sy'n agored i niwed yn gynnar, ac yn bwysicach, i ddiogelu diodefwyr a diodefwyr sy'n dioddef mwy nag un drosedd.

Rwy'n deall bod yr adroddiad yn nodi bod angen i'r heddlu wneud mwy i gefnogi'r rheini sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl pan fyddant yn cysylltu â'r heddlu am y tro cyntaf. Mae cyfran uchel iawn o ddiogwyddiadau'r heddlu yn ymwneud ag iechyd meddwl, ac rwy'n parhau i weithio'n galed i sicrhau bod ein partneriaid yn deall hyn ac yn gallu cefnogi ein gwasanaeth gyda'r gwaith o ddarparu ymatebion iechyd meddwl effeithiol a phriodol i'r rhai sydd eu hangen. Rydym yn gwneud cynnydd yn y maes hwn, ond fel Comisiynydd, rwy'n awyddus i bwysleisio'r ffaith bod angen mynd i'r afael ag iechyd meddwl drwy godi ymwybyddiaeth staff a swyddogion a'u hyfforddi. Byddaf yn cadw llygad am y newyddion diweddaraf gan y Prif Gwnstabl drwy gydol y flwyddyn.

Rwy'n falch eich bod o'r farn bod galluoedd arbenigol yr heddlu yn gadarnhaol yn y meysydd y gwnaethoch eu hystyried. O ystyried sefyllfa'r bygythiadau cenedlaethol ar hyn o bryd, rwy'n teimlo bod Heddlu De Cymru mewn sefyllfa dda i weithio mewn modd cydweithredol a chenedlaethol yn erbyn yr heriau hyn. Rwy'n falch eich bod wedi nodi bod gan Heddlu De Cymru drefniadau ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau plismona cenedlaethol. Drwy fy nhrefniadau llywodraethu, byddaf yn parhau i geisio cadarnhad ein bod yn effeithiol yn y maes hwn sy'n newid o hyd.

Ar y cyfan, rwy'n croesawu asesiad Heddlu De Cymru fel heddlu da mewn perthynas â'r arolygiad hwn. Byddaf yn parhau i ddwyn yr heddlu i gyfrif am welliannau, tra hefyd yn canmol y Prif Gwnstabl a'i dîm yn haeddiannol am y datblygiadau cadarnhaol sy'n mynd rhagddynt.

Y Gwir Anrh Alun Michael Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English